



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cynnwys y Gymraeg wrth ddigideiddio gwasanaethau

Dyddiad: Hydref 2018

Mae'r Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn y broses o ddigideiddio ei wasanaethau mewn ymdrech i foderneiddio'r ffordd y mae'n gweithio. Mae'r datblygiadau technegol yn arwain at wasanaeth sydd yn fwy hygyrch a darpariaeth well i siaradwyr Cymraeg.

CEFNDIR / CYD-DESTUN

Mae nifer o wasanaethau'r Llysoedd a Thriwlynlysoedd yn cael eu digideiddio fel rhan o raglen ddiwygio genedlaethol. Bwriad y rhaglen yw moderneiddio'r ffordd y mae'r Llysoedd a Thriwlynlysoedd yn gweithio a lleihau'r achosion sydd angen mynd gerbron y llys drwy gynnig gwasanaethau digidol ar wefan www.gov.uk. Fel rhan o'r cynllun moderneiddio mae'r sefydliad yn sicrhau bod y gwasanaethau digidol newydd hefyd ar gael yn Gymraeg.

PARATOADAU CYCHWYNNOL

Er mwyn rhoi'r rhaglen ar waith, ymgynghorwyd â staff drwy gyfrwng sioeau teithiol i gasglu adborth a syniadau am y gwasanaethau. Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith. Roedd yr ymateb a gafwyd yn dangos yn glir bod y defnyddwyr gwasanaeth eisiau tri pheth penodol o wasanaethau digidol:

- 1) Gallu dilyn llwybr Cymraeg o ddechrau i ddiwedd y broses
- 2) Bod y gwasanaeth ar gael mewn Cymraeg safonol ond hawdd ei ddeall
- 3) Bod y gwasanaeth Cymraeg yr un mor hygyrch â'r Saesneg

SICRHAU BOD Y CYNLLUN DIGIDEIDIO YN CYDYMFFURFIO Â CHYNLLUN IAITH Y SEFYDLIAD

Cafwyd sgrysiâu cychwynnol buan gyda Phennaeth Newid Sianel y Gwasanaeth a lluniwyd dogfen o'r enw 'Y Gymraeg o fewn y Rhaglen Ddiwygio' a oedd yn cydnabod yr angen i'r rhaglen newydd gyflwyno'r gwasanaethau yn Gymraeg. Cynhyrchwyd dogfen ar gyfer gofynion angenrheidiol i bob platfform digidol o'r enw '*Solutions Working Group – Architecture Options Paper – Welsh Language Provision*' a oedd yn manylu ar yr

anghenion ieithyddol o fewn y platfformau hyn. Roedd y ddogfen yn pwysleisio ar yr angen i ddylunio cynnwys Cymraeg yn hytrach na chyfieithu cynnwys Saesneg yn unig. Cyflwynwyd y ddwy ddogfen i brif fwrdd rheoli'r Gwasanaeth. Yn ogystal, diwygiwyd Cynllun Iaith y sefydliad i gynnwys adran 'Gwasanaethau Digidol' i adlewyrchu'r newidiadau modern i'r gwasanaeth.

RHOI'R RHAGLEN AR WAITH

Cynhaliodd swyddog polisi'r uned iaith Gymraeg sawl cyfarfod wyneb yn wyneb â'r swyddogion technegol oedd yn gyfrifol am ddatblygu'r platfform digidol a datblygu gwasanaethau ar wefan www.gov.uk. Roedd sefydlu a chynnal perthynas adeiladol â'r swyddogion technegol yn allweddol bwysig i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yng nghamau cychwynnol y broses o ddylunio a chynllunio'r gwasanaethau newydd. Roedd y swyddogion technegol yn gyfrifol am ddatblygu fersiynau Saesneg o'r gwasanaethau. Byddai'r uned iaith Gymraeg yn derbyn y fersiynau Saesneg a thrwy ddefnyddio'r platfform Transifex ar y we (sy'n galluogi'r cyfieithiad Cymraeg i ddangos gyferbyn â'r un Saesneg fel bod person di-Gymraeg yn gwybod yn union bod y testun yn ymddangos yn y lle iawn). Byddai'r cyfieithwyr yna'n mynd ati i'w gyfieithu i'r Gymraeg.

CYLLIDEB

Drwy sicrhau bod y Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth o gychwyn cyntaf y prosiect, a chan fod y gwaith o gyfieithu'r cynnwys wedi ei wneud yn fewnol gan gyfieithwyr y sefydliad, llwyddwyd i gadw'r costau mor isel â phosib.

LLWYDDIANNAU

- Manteisio ar ddatblygiadau'r dechnoleg ddigidol er mwyn gwella darpariaeth Gymraeg y sefydliad
- Hwyluso profiad y defnyddiwr o dderbyn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg

ELFENNAU TROSGLWYDDADWY

Roedd llwyddiant y rhaglen yn ddibynnol iawn ar sicrhau'r elfennau canlynol:

- Cael cefnogaeth yr Uwch Dîm Rheoli a datganiad gan Arweinydd y sefydliad bod y Gymraeg yn greiddiol i'r newid i'r gwasanaeth
- Sicrhau ystyriaeth i'r Gymraeg o gychwyn y broses ddatblygol a'i gynnwys ym mhensaernïaeth cynllunio'r gwasanaethau newydd.
- Dod i adnabod y rheolwyr prosiect yn unigol a sefydlu perthynas waith adeiladol â nhw
- Ceisio adborth a barn y cyhoedd ar sut wasanaeth yr hoffent ei gael e.e. y cywir, ffurfioldeb ayyb.

Manylion cyswllt

Enw: Hywel G Hughes – Uned Iaith Gymraeg

Sefydliad: Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

E-bost: hywel.hughes@Justice.gov.uk

BARN Y COMISIYNYDD

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yn cael eu datblygu a'u newid yn barhaus gyda ffocws gynyddol ar ddarparu gwasanaethau'n ddigidol ac ar-lein. O gynllunio'n fwriadus i gynnwys y Gymraeg o fewn gwasanaethau digidol, gellir darparu gwasanaeth Cymraeg, sydd o ansawdd cyfartal i'r Saesneg, yn rhad ac yn hawdd. Mae'r Comisiynydd hefyd yn grediniol y gall technoleg hwyluso cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd lle bod ystyriaeth lawn wedi ei rhoi i oblygiadau'r datblygiadau ochr yn ochr â'r dyletswyddau ieithyddol statudol sydd wedi eu gosod ar y sefydliad. Wrth ddatblygu a moderneiddio ei wasanaethau, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi llwyddo i wneud y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog o'r cychwyn cyntaf gan sicrhau bod y gwasanaeth sydd wedi ei ddatblygu yn ateb anghenion ei defnyddwyr gwasanaeth dwyieithog.